# Mwy am y rôl

Bydd y swydd newydd hon yn cefnogi datblygiad Sefydliad Cymunedol Cymru ac yn helpu i ddod â'n strategaeth cyfathrebu a marchnata'n fyw.

Byddwch yn creu cynnwys deniadol ac yn dal straeon ysbrydoledig gan ein grantïon a rhoddwyr, gan arddangos effaith ein gwaith a chodi ymwybyddiaeth o Sefydliad Cymunedol Cymru. Gan weithio'n agos gyda'r Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata, byddwch yn cynorthwyo i gynhyrchu cynnwys sy'n cysylltu â'n cynulleidfa.

Byddwch hefyd yn cefnogi trefnu digwyddiadau a chyfarfodydd gyda'n rhanddeiliaid i helpu i dyfu a chryfhau ein cymuned o gefnogwyr.

Rydyn ni'n chwilio am rywun sy'n awyddus i gymryd cyfrifoldeb a datblygu ei sgiliau creadigol. Os ydych chi'n drefnus, yn rhagweithiol, ac yn mwynhau amrywiaeth yn eich gwaith, yna dyma'r swydd i chi.


Byddai'r gallu i gyfathrebu'n rhugl yng Nghymraeg ac yn Saesneg yn ddefnyddiol, gan ein helpu i gyrraedd a chysylltu â chefnogwyr ledled Cymru.









# Swydd ddisgrifiad
# Cydlynydd Cyfathrebu a Marchnata

---

**Oriau:** Rhan amser - 25 awr yr wythnos.
Yn achlysurol bydd angen gweithio ar nosweithiau, penwythnosau ac aros dros nos.

**Cyflog:** £25,000 pro rata.

**Yn atebol i:** Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata.

**Lleoliad:** Gweithio hybrid - gweithio gartref ac yn swyddfa Caerdydd ( 1 diwrnod yr wythnos fel arfer, yn ddelfrydol ar ddydd Mawrth pan mae ein cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal). Byddem yn ystyried seilio y swydd hon gartref ar gyfer yr ymgeisydd cywir, gydag ymweliadau misol i Gaerdydd.

**Contract:** Parhaol.

**Buddion:** 25 diwrnod o wyliau'r flwyddyn (pro-rata), yn ogystal â gwyliau cyhoeddus, swyddfa yn cau rhwng y Nadolig a Blwyddyn Newydd, un diwrnod ychwanegol o wyliau ar gyfer eich pen-blwydd (pro-rata), pensiwn cyfrannol 5%, sesiynau lles misol, cynllun beicio i'r gwaith, dau ddiwrnod gwirfoddoli â thâl (pro-rata), marwolaeth mewn gwasanaeth, ac ystod eang o fanteision iechyd preifat.

## Tasgau a chyfrifoldebau allweddol

- **Cyfryngau cymdeithasol** - rheoli'r calendr cynnwys cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys cynllunio ac amserlennu cynnwys.
- **Cynnwys creadigol** - datblygu llyfrgell ddelweddau'r sefydliad a chreu cynnwys fideo cymhellol i ddod â straeon Sefydliad Cymunedol Cymru yn fyw.
- **Gwefan** – diwygio a diweddaru cynnwys y wefan, gan weithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ceisiadau diweddaru copi gan y tîm ehangach.
- **Cyfathrebu** - cefnogi'r tîm wrth ysgrifennu a chynhyrchu cylchlythyrau, datganiadau i'r wasg, a diweddariadau rheolaidd i Lywodraeth Cymru.
- **Casglu data** – cynorthwyo'r Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata i ddadansoddi ymgysylltiad trwy gasglu data ar ryngweithiadau cyfryngau cymdeithasol, perfformiad e-bost, traffig gwefan a monitro cyfryngol.
- **Dylunio** - cefnogi'r tîm i greu adroddiadau, cyflwyniadau a deunyddiau marchnata deniadol a gweledol, gan ddefnyddio offer dylunio (fel Canva) a/neu drwy weithio'n agos gyda dylunwyr allanol i ddatblygu deunyddiau digidol ac argraffu o ansawdd uchel.
- **Digwyddiadau** - cynorthwyo i drefnu a chynnal digwyddiadau fel CFW Croeso a CFW Connect.
- **Cyfathrebu dwyieithog** - cysylltu â chyfieithwyr i helpu cynhyrchu dogfennau a chopi dwyieithog o safon ar gyfer llwyfannau digidol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill yn unol â chyfarwyddyd y Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata.

# Sgiliau a phrofiad perthnasol

## Hanfodol

- Addysgwyd i lefel gradd, neu brofiad cyfatebol yn gweithio mewn rôl cyfathrebu, marchnata neu farchnata ddigidol.
- Profiad o ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol (Facebook, X, LinkedIn, Instagram) gyda'r gallu i gynllunio ac amserlennu diweddariadau gan ddefnyddio offer fel Hootsuite neu Sprout Social, a dealltwriaeth sylfaenol o ddadansoddi data cyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o gynhyrchu cynnwys digidol deniadol, gan gynnwys creu fideos sylfaenol ac adrodd straeon amlgyfrwng, i ysgogi ymgysylltiad ein cynulleidfaoedd.
- Profiad o olygu gwefannau, gan ddefnyddio systemau rheoli cynnwys fel WordPress.
- Creadigol, gyda'r gallu i ddylunio a chynllunio.
- Lefel uchel o gymhwysedd TG.
- Cyfathrebwr ac ysgrifennwr gwych, gyda sylw i fanylder.
- Sgiliau trefnu ardderchog gyda'r gallu i flaenoriaethu.
- Parodrwydd i ddysgu sgiliau newydd.
- Y gallu i weithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm.

## Dymunol

- Rydym yn sefydliad dwyieithog a byddai'r gallu i weithio yn y Gymraeg yn fantais gref i ymgeisydd gyda'r holl sgiliau a phrofiad rydym yn chwilio amdanynt. Fel rhan o'ch swydd, bydd disgwyl i chi gwblhau'r tasgau canlynol: creu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu negeseuon mewnol a chyfrannu at greu cynnwys ar gyfer y wefan, adroddiadau a chylchlythyron. Bydd disgwyl i'r cynnyrch hwn fod ar gael yn ddwyieithog, felly os nad ydych yn gallu siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg, bydd gofyn i chi reoli'r broses gyfieithu.
- Profiad o ddefnyddio llwyfannau dylunio fel Canva neu Adobe Creative Suite.
- Profiad o ddefnyddio meddalwedd e-gylchlythyr fel Mailchimp, neu tebyg.
- Profiad o drefnu digwyddiadau (wyneb yn wyneb neu ar-lein).
- Profiad o greu cynnwys amlgyfrwng e.e. podlediad, gweminar.
- Profiad o ysgrifennu datganiadau i'r wasg a rheoli ymholiadau cyfryngol.
- Profiad o weithio yn y trydydd sector.

